# CANLLAWIAU AR GWESTIYNAU LLAFAR AC YSGRIFENEDIG YN Y CYNULLIAD

*Cynnwys: Paragraff:*


Diben 1

Cyflwyniad 2

**CWESTIYNAU I'W HATEB AR LAFAR**

Dyddiau penodedig a rota atebion gan yr Ysgrifenyddion Cynulliad 3

Rhybudd o gwestiynau llafar 4

Cynnwys y cwestiynau 5

Nifer a threfn cwestiynau i'w hateb ar lafar 6

Y drefn yn ystod y sesiwn gwestiynau 7

Grwpio cwestiynau 7.3

Tynnu cwestiynau llafar yn ôl 8

Trosglwyddo cwestiynau llafar 9

Cyhoeddi cwestiynau ac atebion 10

Cwestiynau llafar brys 11

**CWESTIYNAU I'W HATEB YN YSGRIFENEDIG**

Gofyniad statudol 12

Cyflwyno cwestiynau i'w hateb yn ysgrifenedig 13

Derbyn cwestiynau i'w hateb yn ysgrifenedig 14

Tynnu cwestiynau ysgrifenedig yn ôl 15

Gwelliannau i gwestiynau a gyflwynir 16

Trosglwyddo cwestiynau ysgrifenedig 16.1

Atebion dros dro 17

Cyhoeddi cwestiynau ac atebion 18

Costau 19

ATODIAD 1

**CANLLAWIAU AR FFURF A CHYNNWYS CWESTIYNAU LLAFAR AC YSGRIFENEDIG**

Cyfleoedd Cyfartal

Cynnwys cwestiynau a gyflwynir

Cwestiynau Derbyniol

Cwestiynau Annerbyniol

**CANLLAWIAU AR GWESTIYNAU LLAFAR AC YSGRIFENEDIG YN Y CYNULLIAD**

**Diben**

1.1 Diben cyflwyno cwestiynau i Ysgrifenyddion y Cynulliad yw cael gwybodaeth neu bwyso am weithredu. Cwestiynau annerbyniol yw'r rhai sydd yn anad dim yn cyfleu gwybodaeth, yn awgrymu eu hatebion eu hunain neu'n cyfleu safbwynt arbennig. Dylid drafftio cwestiynau mor gryno â phosibl, gan roi sylw i iaith weddus a pharchus gan barchu'r Goron, y farnwriaeth ac Aelodau'r Cynulliad.

1.2 Rhaid gofyn cwestiynau i Ysgrifenyddion Cynulliad penodol ar dopig penodol yn eu cylch gwaith. Ni fydd y Llywydd yn derbyn cwestiynau penagored (megis holi ynghylch ymrwymiadau'r Prif Ysgrifennydd ar y diwrnod) (*Gweler dyfarniad 1af y Llywydd – sydd ar gael ar y Fewnrwyd o dan Ganllawiau'r Cynulliad).* Mae canllawiau ynghylch y meysydd y gall Ysgrifenyddion unigol y Cynulliad gael eu holi amdanynt ar gael ar y Fewnrwyd (cyswllt â thudalen Canllaw y Cynulliad) a/neu o'r Swyddfa Gyflwyno.

1.3 Ystyrir pob cwestiwn yn ôl ei haeddiant a'r Llywydd yw'r awdurdod terfynol ar dderbynioldeb, cynnwys a hyd cwestiynau a gall ddyfarnu bod cwestiynau'n annerbyniol. Fodd bynnag, y Swyddfa Gyflwyno fydd yn penderfynu a yw cwestiwn yn dderbyniol yn y lle cyntaf.

1.4 Pan ddyfernir cwestiwn yn annerbyniol, bydd clercod y Swyddfa Gyflwyno ar gael i gynnig cyngor i Aelodau'r Cynulliad ar unrhyw welliant i gwestiwn a fydd yn caniatáu iddo gael ei dderbyn a gallant hefyd roi cymorth i Aelodau'r Cynulliad olygu eu cwestiynau. Felly nid yw Aelodau'r Cynulliad yn rhydd i gyflwyno cwestiynau ar unrhyw fater a ddymunant, ac yn gyffredinol rhaid i'r cwestiynau ymwneud â'r materion sydd wedi'u datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 neu faterion lle mae gan y Cynulliad rôl fonitro, lle mae'n casglu gwybodaeth, neu lle mae'n gweinyddu grantiau. Bydd y cwestiwn yn ymwneud nid yn unig â'r meysydd y mae Cabinet y Cynulliad yn gyfrifol yn uniongyrchol amdanynt ond rhaid iddo hefyd fod yn ddarostyngedig i'r terfynau manylach a nodir yn Atodiad 1.

**Cyflwyniad**

2.1 Mae adran 56(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 6 yn darparu i Aelodau'r Cynulliad ofyn cwestiynau llafar neu ysgrifenedig i'r Prif Ysgrifennydd ynghylch arfer swyddogaethau gan Gabinet y Cynulliad*;* a gofyn i Ysgrifenyddion Cynulliad ynghylch swyddogaethau ym maes eu cyfrifoldeb hwythau. Os ceir cyfrifoldebau clir wedi'u dirprwyo, dylid cyfeirio cwestiynau ar faterion polisi manwl sy'n ymwneud â'r cyfrifoldebau hynny at yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol ac nid at y Prif Ysgrifennydd. Er hynny, dylid cyfeirio cwestiynau sy'n ymwneud â chydlynu polisi neu gwestiynau sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r Prif Ysgrifennydd yn arwain y Cabinet at y Prif Ysgrifennydd. *(Gweler datganiad y Llywydd a wnaed yn y cyfarfod llawn ar 13 Gorffennaf 1999)*.

2.2 Mae Cwestiynau'r Cynulliad yn gyfrwng pwysig i'r Aelodau alw Ysgrifenyddion y Cynulliad i gyfrif. Fodd bynnag, disgwylir na fydd angen i'r Aelodau ddefnyddio'r mecanweithiau hyn heblaw pan fyddant am ddenu cyhoeddusrwydd neu am gael datganiad clir ar bolisi yn swyddogol. Dylai diwylliant y Cynulliad annog llif ddirwystr o wybodaeth rhwng y swyddogion gweithredol a'r Aelodau, fel nad oes angen mecanweithiau ffurfiol dim ond er mwyn cael gwybodaeth ffeithiol. Yn aml, y Fewnrwyd a'r Llyfrgell sy'n gallu cynnig gwasanaeth briffio ffeithiol, yw'r ffordd fwyaf priodol a'r cyflymaf o ddod o hyd i wybodaeth ffeithiol.

2.3 Mae tri chategori o gwestiwn:

- **cwestiynau i’w hateb ar lafar** a gyflwynir gyda’r bwriad y dylent gael ateb llafar yn y Cynulliad yn ystod y cyfnod a ddynodir yn Sesiwn Gwestiynau llafar;
- **cwestiynau i’w hateb yn ysgrifenedig** pan na roddir atebion llafar yn y Cynulliad ond yn hytrach a anfonir yn ysgrifenedig yn uniongyrchol at yr Aelod Cynulliad.
- **cwestiynau brys** na ellir eu gofyn ond os yw’n fater brys ac o bwys cyhoeddus ym marn y Llywydd, ac sy’n cael eu hateb ar lafar yn y Cynulliad mewn unrhyw gyfarfod llawn. Mae’r canllawiau ynghylch a yw cwestiynau yn dderbyniol, gan gynnwys paragraff 1.4 a’r Atodiad, lawn mor gymwys i’r cwestiynau brys.

## CWESTIYNAU I’W HATEB AR LAFAR

### Dyddiau penodedig a rota atebion gan yr Ysgrifenyddion Cynulliad

3.1 Dyma’r gofynion yn Rheol Sefydlog 6.3(1):

(i) cwestiynau llafar i'r Prif Ysgrifennydd i gael eu derbyn o leiaf unwaith bob wythnos (mewn cyfarfod llawn) ac i bara am o leiaf 15 munud;

(ii) cwestiynau llafar i bob Ysgrifennydd Cynulliad (ac eithrio’r Trefnydd) i gael eu derbyn o leiaf unwaith ym mhob pedair wythnos (mewn cyfarfod llawn) ac i bara am o leiaf 15 munud.

3.2 Derbynnir cwestiynau i’r Prif Ysgrifennydd ar ddydd Mawrth, ac i’r Ysgrifenyddion Cynulliad ar ddydd Mercher. Bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu ar ddechrau pob sesiwn ddyddiadau ac amserau cwestiynau i bob Ysgrifennydd Cynulliad. Caiff y rhain eu rhestru ym Mhapurau Busnes y Cynulliad sydd ar gael ar y rhyngrwyd/mewnrwyd. Gall clercod y Swyddfa Gyflwyno hefyd gynghori Aelodau ar y rota o Ysgrifenyddion Cynulliad a fydd yn ateb.

### Rhybudd o gwestiynau llafar

4.1 Mae’n ofynnol i’r Aelodau roi rhybudd o’r cwestiynau y dymunant eu gofyn. Gwneir hyn drwy roi geiriad y cwestiwn i’r Swyddfa Gyflwyno (y cyfeirir ato fel ‘cyflwyno cwestiwn’) dim cynt na 10 niwrnod a dim hwyrach na 5 niwrnod cyn y sesiwn gwestiynau dan sylw. (*Rheol Sefydlog 6.27).*

4.2 Mae’r cyfnod o rybudd yn rhoi amser i’r Ysgrifenyddion Cynulliad, a’u cynghorwyr, baratoi atebion i’r cwestiynau.

4.3 Mae ffurflen ar gael i hwyluso cyflwyno cwestiynau (ar gael ar y fewnrwyd ac yn y Swyddfa Gyflwyno). Mae’n ofynnol i’r Aelodau gyflwyno’r cwestiwn naill ai’n bersonol yn y Swyddfa

Gyflwyno, neu drwy awdurdodi aelod o'u staff neu Aelod arall i wneud hynny ar eu rhan drwy lofnodi a dyddio'r ffurflen ar ôl ei llenwi, neu e-bostio'r ffurflen at glerc yn y Swyddfa Gyflwyno. Prosesir cwestiynau yn ystod oriau agor swyddogol y Swyddfa Gyflwyno pan fydd y Cynulliad yn eistedd (ac ar ddyddiau arbennig pan yw ar gau). Gellir cyflwyno cwestiynau yn Gymraeg neu'n Saesneg.

4.4 Mae'r Aelodau'n gyfrifol am bob deunydd a anfonir o'u cyfrifiaduron personol a dylent sicrhau eu bod yn cadw eu cyfrinair etc. yn ddiogel.

4.5 Cynlluniwyd y dyddiau cyflwyno yn ystod y gwyliau i sicrhau bod modd cynnal sesiwn gwestiynau llafar yn ystod y pythefnos cyntaf yn dilyn gwyliau ac maent yn debygol felly o fod tua diwedd cyfnod o wyliau. Cyn cychwyn cyfnod o wyliau bydd y Swyddfa Gyflwyno yn cynhyrchu rhestr dyddiadau ac amseroedd, y mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno arni, pryd y gall Aelodau'r Cynulliad gyflwyno cwestiynau llafar. Mae'r rhestr ar gael ar y Fewnrwyd a chaiff ei gosod ar fwrdd bwletinau'r Swyddfa Gyflwyno.

4.6 Mae'n ofynnol i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiant perthnasol wrth gyflwyno cwestiwn a chyn ei ofyn, ac anodir y cwestiwn ag [R] ar Bapur y Drefn i dynnu sylw at y buddiant. (Dylai'r Aelodau gyfeirio at y Canllawiau ar Fuddiannau Aelodau wrth gymryd rhan yn y trafodion.)

**Cynnwys y cwestiynau**

5.1 Derbynnir cwestiynau yn ôl doethineb y Llywydd. Yn ymarferol, staff y Swyddfa Gyflwyno fydd yn arfer y disgresiwn hwn a byddant yn rhoi gwybod i Aelodau a yw eu cwestiynau'n dderbyniol. Dylid cadw'r cwestiynau'n fyr a chryno ac fel rheol ni ddylent gynnwys mwy na 50 gair.

5.2 Pan wrthodir cwestiwn gan y Swyddfa Gyflwyno a bod yr Aelod Cynulliad yn dymuno mynd â'r mater ymhellach, gall siarad â Phennaeth y Swyddfa Gyflwyno neu â Chlerc y Cynulliad. Os bydd yr Aelod yn dal i fod yn anfodlon ar ôl siarad â Phennaeth y Swyddfa Gyflwyno neu'r Clerc, dylai ysgrifennu at y Llywydd yn hytrach na chodi'r mater fel mater o drefn yn y Cynulliad. Y Llywydd yw'r awdurdod terfynol ar dderbynioldeb cwestiynau.

5.3 Bydd y cwestiynau sy'n cael eu cyflwyno, a'u derbyn, yn cael eu cyhoeddi yn adran Gwestiynau Papurau Busnes y Cynulliad. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi cyfeirnod unigryw i gwestiynau llafar ac ysgrifenedig a nodir hwnnw wrth ochr y cwestiwn yn y Papurau Busnes.

**Nifer a threfn cwestiynau i'w hateb ar lafar**

6.1 Mae Rheol Sefydlog 6 yn cyfyngu nifer y cwestiynau llafar y gall Aelod Cynulliad eu gofyn i bob un o'r Ysgrifenyddion Cynulliad i ddau ym mhob sesiwn gwestiynau neu yn achos y Prif Ysgrifennydd, dim mwy nag un cwestiwn.

6.2 Mae Rheol Sefydlog 6.29 yn nodi sut y pennir trefn ateb cwestiynau llafar. Mae cwestiynau a dderbynnir erbyn yr amser cau ar y diwrnod cyntaf y gellir eu cyflwyno, yn mynd i broses dewis drwy hapddull i benderfynu ar eu trefn. Cyhoeddir trefn y cwestiynau ar hysbysfwrdd y Swyddfa Gyflwyno gyda'r nos honno ac yn y Papurau Busnes y bore dilynol. Dim ond y 30 cwestiwn cyntaf sy'n llwyddo i ddod i'r brig wrth eu cymysgu a gaiff eu hargraffu yn y Papurau Busnes. Bydd y cwestiynau sy'n dod yn is na 30 yn y rhestr, yn dilyn eu cymysgu, yn syrthio ac ni chânt eu hateb.

**Y drefn yn ystod y sesiwn gwestiynau**

7.1 Mae'r Llywydd yn cychwyn y sesiwn gwestiynau drwy alw enw'r Aelod Cynulliad sydd â'r cwestiwn cyntaf ar agenda'r Cynulliad y diwrnod hwnnw. Mae'r Aelod Cynulliad yn darllen y cwestiwn [na ddylai fod yn wahanol i'r fersiwn a gyflwynwyd i'r Swyddfa Gyflwyno]. Yna mae'r Llywydd yn gwahodd y Prif Ysgrifennydd neu'r Ysgrifennydd Cynulliad i ateb. Gan amlaf, disgwylir i atebion fod yn rhai byr – heb fod yn fwy na 50 gair yn ddelfrydol. Dylai atebion hirach fod yn eithriad i'r rheol. Ni ddylid troi atebion yn ddatganiadau. Bydd Aelod Cynulliad nad yw'n bresennol i ofyn ei gwestiwn ef neu ei chwestiwn hi yn cael ateb ysgrifenedig oni bai ei fod ef neu hi yn tynnu'r cwestiwn yn ôl. Mewn amgylchiadau felly, bydd y Llywydd yn galw'r cwestiwn nesaf ar yr agenda. Os bydd Aelod Cynulliad yn gwybod ymlaen llaw na fydd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfod llawn i ofyn y cwestiwn a gyflwynwyd, dylai ei drosi i gwestiwn ar gyfer ateb ysgrifenedig drwy roi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno.

7.2 Yn dilyn ateb yr Ysgrifennydd Cynulliad, bydd y Llywydd yn gwahodd yr Aelod Cynulliad a ofynnodd y cwestiwn gwreiddiol i ofyn cwestiwn sy'n dilyn (cwestiwn atodol), sy'n gorfod bod yn gysylltiedig â'r prif gwestiwn. Ar ôl i'r cwestiwn atodol cyntaf gael ei ateb, caiff y Llywydd alw ar Aelodau eraill o'r Cynulliad i ofyn cwestiynau atodol cysylltiedig. [Gan amlaf, dylid cyfyngu'r rhain i ddim mwy na 50 gair fel arfer]. Rhaid i'r ateb ac unrhyw gwestiwn atodol fod yn gysylltiedig â'r cwestiwn gwreiddiol. Mae penderfynu pwy sy'n cael gofyn cwestiynau atodol neu siarad yn dibynnu'n llwyr ar ddoethineb y Llywydd ac ni ellir ei herio.

**Grwpio Cwestiynau**

7.3 Weithiau, bydd Ysgrifennydd Cynulliad yn penderfynu rhoi un ateb i nifer o gwestiynau ar agenda'r diwrnod hwnnw pan fyddant yn ymwneud â'r un pwnc.

Ysgrifenyddion y Cynulliad, ac yn y pen-draw y Llywydd, sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid grwpio cwestiynau. Dim ond y cwestiynau hynny a fyddai fel arfer yn derbyn ateb yn ystod y sesiwn gwestiynau llafar ddylid eu grwpio. Er hynny, efallai y bydd y rheol hon yn amhriodol o dan rai amgylchiadau eithriadol. Os cynigir grwpio cwestiynau, dylai Ysgrifennydd Preifat y Llywydd roi gwybod i Ysgrifennydd Preifat y Prif Ysgrifennydd neu Ysgrifennydd Preifat Ysgrifennydd y Cynulliad, yn ôl y gofyn, cyn dechrau sesiwn gwestiynau'r diwrnod hwnnw.

Dylai Ysgrifenyddiaeth y Cabinet hefyd roi gwybod i'r Aelodau dan sylw mewn da bryd a bydd ateb yr Ysgrifennydd Cynulliad yn cyfeirio at y cwestiynau sy'n cael eu hateb gyda'i gilydd. Os caiff y cwestiynau eu grwpio, bydd y Llywydd yn galw ar yr Aelodau Cynulliad y mae eu cwestiynau wedi eu hateb gyda'i gilydd, i ofyn eu cwestiynau atodol yn ôl eu rhif.

7.4 Pan fydd y Llywydd o'r farn bod cwestiwn, ac unrhyw gwestiynau atodol y mae ef neu hi yn eu caniatáu, wedi eu hateb yn ddigonol, gelwir enw'r Aelod sydd i ofyn y cwestiwn nesaf ar agenda'r diwrnod hwnnw. Bydd y broses yn parhau hyd nes y daw'r cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau i ben. Mae disgwyl y bydd unrhyw gwestiwn llafar na chafodd ei ateb erbyn diwedd y cyfnod hwn yn cael ateb ysgrifenedig yr un diwrnod.

7.5 Mae barn y Llywydd ar yr holl faterion ynghylch rheoli'r sesiwn cwestiynau yn derfynol ac ni ddylai Aelodau'r Cynulliad gwestiynu'r cyfryw benderfyniadau. Yn arbennig, ac er mwyn sicrhau bod holl Aelodau'r Cynulliad yn cael cyfle rhesymol i leisio'u cwestiynau, mae'n bwysig bod atebion Cabinet y Cynulliad a chwestiynau atodol yn cael eu cadw mor fyr â phosibl. Dylid cyfyngu ateb i'r pwyntiau a godir yn y cwestiwn a dylid gofyn unrhyw gwestiwn atodol yn gryno heb na dadl na sylw cymhleth. Yn eithriadol, gellir cyhoeddi ateb hir yn y Cofnod yn hytrach na'i roi ar lafar, ond dylai Ysgrifennydd Cynulliad ymdrechu i roi ateb llafar byr defnyddiol sy'n cyfeirio at yr ateb llawn a anfonir at yr Aelod ac a fydd i'w weld yn y Cofnod.

7.6 Mae disgwyl i Ysgrifennydd Cynulliad gael ei gwestiynu drwy gydol yr amser sydd ar gael. Os digwydd i'r Ysgrifennydd Cynulliad ateb yr holl gwestiynau cyn diwedd y cyfnod a neilltuir, sy'n annhebyg o ddigwydd, bydd y Llywydd yn galw'r eitem nesaf ar yr agenda am y diwrnod.

**Tynnu cwestiynau llafar yn ôl**

8.1 Gellir tynnu cwestiwn llafar yn ôl neu ei drosi i gwestiwn ysgrifenedig ar unrhyw adeg cyn cychwyn y cyfarfod llawn lle y disgwylir ei ateb. Dylai Aelodau'r Cynulliad neu staff cymorth yr Aelodau (gyda chaniatâd yr aelodau) roi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno, naill ai yn bersonol drwy ffôn neu e-bost, am eu penderfyniad i dynnu'r cwestiwn yn ôl neu ei drosi i gwestiwn ysgrifenedig. Gall y Swyddfa Gyflwyno ymdrin â neges e-bost yn fwy effeithiol os bydd Aelodau Cynulliad neu'u staff cymorth yn dilyn y cam hwn gyda galwad ffôn er mwyn sicrhau bod yr e-bost wedi cyrraedd. Wrth dderbyn rhybudd o dynnu cwestiwn yn ôl bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod ar unwaith i Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ac Ysgrifenyddiaeth y Siambr. Os tynnir y cwestiwn yn ôl cyn y diwrnod y mae i'w ateb, cyhoeddir testun y cwestiwn yn yr agenda ddyddiol ar gyfer y diwrnod yr oedd i'w ateb, fel un a dynnwyd yn ôl.

**Trosglwyddo cwestiynau llafar**

9.1 Pan gyfeirir cwestiwn llafar yn anghywir ac na lwyddodd y Swyddfa Gyflwyno i roi gwybod i'r Aelod dan sylw cyn iddo gael ei gyflwyno, bydd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet yn rhoi gwybod i'r Aelod os bydd yn cael ei drosglwyddo. Os bydd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet yn trosglwyddo'r

cwestiwn bydd yr Aelod Cynulliad yn colli'r cyfle i gael ateb llafar ar y diwrnod a ddewiswyd. Dylid trosglwyddo cwestiynau o leiaf 24 awr cyn y maent i fod i gael eu hateb er mwyn sicrhau bod yr Aelod yn cael digon o rybudd.

9.2 Pan drosglwyddir cwestiwn, anfonir hysbysiad ffurfiol gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet i'r Aelod Cynulliad dan sylw ac i'r Swyddfa Gyflwyno. Caiff penderfyniadau ynghylch trosglwyddo cwestiynau a'r rhesymau dros drosglwyddo eu cyfleu i'r Aelod priodol o'r Cynulliad.

**Cyhoeddi cwestiynau ac atebion**

10.1 Caiff pob cwestiwn sy'n cael ei gyflwyno a'i dderbyn ei gyhoeddi fel y gellir eu hateb yn adran Cwestiynau'r Cynulliad ym Mhapur y Drefn ar y diwrnod ar ôl i'r cwestiwn ddod i law. Cyhoeddir y cwestiynau yn y Cofnod ar y diwrnod sy'n dilyn y diwrnod y cânt eu hateb.

**Cwestiynau llafar brys**

11.1 Mae Rheol Sefydlog 6.31 yn darparu ar gyfer gofyn cwestiynau llafar i'r Prif Ysgrifennydd a'r Ysgrifenyddion Cynulliad heb rybudd ysgrifenedig blaenorol os ydynt o natur frys ac yn ymwneud â mater o bwys cyhoeddus. Gyda chwestiynau o'r fath dylid rhoi rhybudd o leiaf ddwy awr ymlaen llaw i'r Llywydd a'r Ysgrifennydd Cynulliad/Prif Ysgrifennydd. Y Llywydd fydd yn penderfynu a ellir gofyn y cwestiynau ac ar ba adeg. Os bydd Aelod yn dymuno gwneud cais i ofyn cwestiwn brys, dylai, yn y lle cyntaf, gysylltu ag Ysgrifennydd Preifat y Llywydd a fydd yn gofyn am gyngor y Llywydd. Os bydd y Llywydd yn fodlon bod y cais yn bodloni'r meini prawf ynghylch cwestiynau brys a chwestiynau sydd o bwys cyhoeddus, a'i fod yn penderfynu gadael i'r Aelod ofyn ei gwestiwn yn y cyfarfod llawn nesaf, dylai'r Aelod lenwi'r ffurflen briodol a'i chyflwyno i'r Swyddfa Gyflwyno. Bydd y Swyddfa Gyflwyno yn gallu helpu Aelodau i ddrafftio geiriad cwestiynau brys sydd wedi cael eu derbyn mewn egwyddor gan y Llywydd.

11.2 Penderfynir a ddylid derbyn ceisiadau o'r fath yn ôl doethineb y Llywydd yn gyfan-gwbl. Caiff y Llywydd ymgynghori â'r Ysgrifennydd Cynulliad ar fater o frys/bwys cyhoeddus os yw'n dymuno ond nid yw'n ofynnol iddo wneud hynny. Mae cwestiynau brys yn ddarostyngedig i'r un rheolau o ran ffurf, cynnwys a threfn ag yw cwestiynau llafar cyffredin.

11.3 Pan fydd cwestiwn brys yn cael ei ganiatáu, bydd Ysgrifennydd Preifat y Llywydd yn rhoi gwybod i'r Aelod, Ysgrifenyddiaeth y Cabinet, y Swyddfa Gyflwyno a Rheolwyr Busnes y Pleidiau ar unwaith. Bydd testun y cwestiwn yn ymddangos ar Wefan y Siambr a lle bo digon o amser i wneud hynny, cyhoeddir hysbysiad hefyd yn yr adran berthnasol o Bapur y Drefn.

**CWESTIYNAU I'W HATEB YN YSGRIFENEDIG**

**Gofyniad statudol**

12.1 Mae Rheol Sefydlog 6.33 yn darparu ar gyfer cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i'r Prif Ysgrifennydd neu unrhyw un o'r Ysgrifenyddion Cynulliad ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau.

**Cyflwyno cwestiynau i'w hateb yn ysgrifenedig**

13.1 Gweler 4.4 uchod.

13.2 Rhaid marcio'n glir ar y ffurflenni cwestiynau eu bod ar gyfer ateb ysgrifenedig. Dylid cyfeirio pob cwestiwn ysgrifenedig at y Prif Ysgrifennydd neu'r Ysgrifennydd Cynulliad priodol, e.e. "Gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg….". Mae'n ofynnol rhoi datganiad o fuddiant perthnasol wrth gyflwyno cwestiwn ysgrifenedig a phan ddatgenir buddiant o'r fath argreffir y symbol '[R]' ar ôl enw'r Aelod ar agenda'r diwrnod hwnnw. (Nid oes terfyn ar nifer y cwestiynau y gellir eu cyflwyno i'w hateb yn ysgrifenedig.)

**Derbyn cwestiynau i'w hateb yn ysgrifenedig**

14.1 Caiff cwestiynau eu derbyn yn ôl doethineb y Llywydd. Bydd staff y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod i'r Aelodau a yw eu cwestiynau yn dderbyniol. [Dylid cadw'r cwestiynau yn fyr a chryno, ac ni ddylent gynnwys mwy na 50 gair.]

14.2 Pan wrthodir cwestiwn gan y Swyddfa Gyflwyno a bod yr Aelod Cynulliad yn dymuno mynd â'r mater ymhellach, dylai siarad â Phennaeth y Swyddfa Gyflwyno neu Glerc y Cynulliad. Os bydd yr Aelod yn dal yn anfodlon ar ôl siarad â Phennaeth y Swyddfa Gyflwyno neu â Chlerc y Cynulliad dylai ysgrifennu at y Llywydd yn hytrach na chodi'r mater fel mater o drefn yn y Cynulliad. Y Llywydd yw'r awdurdod terfynol ar dderbynioldeb cwestiynau.

**Tynnu cwestiynau ysgrifenedig yn ôl**

15.1 Dylai Aelodau'r Cynulliad neu staff cymorth yr Aelodau (gyda chaniatâd yr aelodau) roi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno, naill ai yn bersonol neu drwy e-bost, am eu penderfyniad i dynnu'r cwestiwn yn ôl neu ei drosi i gwestiwn ysgrifenedig. Gall y Swyddfa Gyflwyno ymdrin ag achosion tynnu cwestiynau yn ôl drwy e-bost yn fwy effeithiol os bydd Aelodau'r Cynulliad neu'u staff cymorth yn mynd ar ei drywydd gyda galwad ffôn er mwyn sicrhau bod yr e-bost wedi cyrraedd. Ar ôl cael rhybudd o dynnu cwestiwn yn ôl bydd y Swyddfa Gyflwyno yn rhoi gwybod ar unwaith i Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ac Ysgrifenyddiaeth y Siambr.

**Gwelliannau i Gwestiynau a Gyflwynir**

16.1 Gall aelodau wneud mân-welliannau i'r cwestiynau a gyflwynwyd ar gyfer ateb llafar neu ysgrifenedig cyhyd ag y bônt yn rhoi rhybudd i'r Swyddfa Gyflwyno ddiwrnod cyn y caiff y cwestiwn ei ateb. (Gallai hyn fod yn angenrheidiol, er enghraifft, os yw rhif cynllun ffordd wedi'i

ddyfynnu’n anghywir yn y cwestiwn a gyflwynwyd.) Ni dderbynnir gwelliannau mwy megis newid pwnc y cwestiwn yn llwyr.

**Trosglwyddo cwestiynau ysgrifenedig**

16.2 Os bydd Aelod Cynulliad yn cyfeirio ei gwestiwn at yr Ysgrifennydd Cynulliad anghywir ac nad yw’r Swyddfa Gyflwyno yn nodi hyn, caiff ei drosglwyddo i’r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol. Bydd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet yn rhoi gwybod i Aelod Cynulliad ac i’r Swyddfa Gyflwyno pa Ysgrifennydd Cynulliad fydd yn ateb y cwestiwn.

**Atebion dros dro**

17.1 Yn achlysurol, pan fydd cwestiwn yn gofyn am ateb hirfaith, neu pan fydd gofyn am rywfaint o ymchwil, neu am ryw reswm arall y mae’n cymryd rhywfaint o amser ar yr Ysgrifennydd Cynulliad ddarparu ateb, mae’r Aelod yn cael ateb sy’n dweud "Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod". Ni chyhoeddir yr ateb dros dro ond cyfeirir ato pan gyhoeddir yr ateb terfynol yn y Cofnod.

**Cyhoeddi cwestiynau ac atebion**

18.1 Caiff cwestiynau sy’n cael eu derbyn eu rhoi ar y Fewnrwyd ar y diwrnod sy’n dilyn y diwrnod y cyflwynir y cwestiwn.

18.2 Mae Aelodau’r Cynulliad yn cael ateb i gwestiwn ysgrifenedig oddi wrth yr Ysgrifennydd Cynulliad priodol fel rheol o fewn pum diwrnod gwaith. Ar yr un pryd anfonir copi gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet i’r Swyddfa Gyflwyno a’r Cofnod sy’n trefnu iddo gael ei gyhoeddi yn y Cofnod, ar y Fewnrwyd a’r Rhyngrwyd.

**Costau**

19.1 Yn achos atebion ysgrifenedig caiff Ysgrifenyddion Cynulliad ddewis peidio â darparu atebion terfynol i gwestiynau pryd y byddai’r gost o’u hateb y tu hwnt o ddrud, ac yn uwch na’r terfyn a gynghorir. £500 yw terfyn cost presennol atebion ysgrifenedig. Rhoddir gwybod i’r Aelod os yw’n achos felly (a chyhoeddir hynny hefyd yn y Cofnod).

ATODIAD 1

**CANLLAWIAU DRAFFT AR FFURF A CHYNNWYS CWESTIYNAU’R CYNULLIAD**

*Noder y mabwysiadir ffurf a chynnwys cwestiynau gan y Cynulliad, yn unol â rheol sefydlog 6.28 a 6.34.*

**Cyfleoedd Cyfartal**

1 Dylai Aelodau, wrth gyflwyno cwestiynau ar gyfer atebion llafar ac ysgrifenedig, roi sylw i adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998:

> "Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau cynnal ei fusnes gan roi sylw priodol i egwyddor rhoi cyfle cyfartal i bawb."

2. Ni fydd cwestiynau sy'n cynnwys iaith y mae'r Llywydd yn credu ei bod yn hiliol, yn rhywiaethol neu'n camwahaniaethu mewn modd arall yn cael eu derbyn. Mae Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad ar gael ar y Fewnrwyd a dylai'r Aelodau ystyried hwn wrth lunio unrhyw gwestiwn.

**Cynnwys cwestiynau a gyflwynir**

3. Rhaid i gwestiynau a gyflwynir i'r Prif Ysgrifennydd ymwneud ag arfer swyddogaethau gan y Prif Ysgrifennydd a swyddogaethau Cabinet y Cynulliad (Deddf Llywodraeth Cymru 1998, adran 56(7)(a)).

4. Dylai cwestiynau a gyflwynir i'r Ysgrifenyddion Cynulliad fod yn berthnasol i'r swyddogaethau a arferir gan y Cynulliad yn y meysydd y maent yn atebol amdanynt (Deddf Llywodraeth Cymru 1998, adran 56(7)(b) a Rheolau Sefydlog 6.26 a 6.33). Dylid cyfeirio cwestiwn at yr Ysgrifennydd sydd â'r prif gyfrifoldeb dros y mater. Os daw'n glir wedyn bod cwestiwn wedi cael ei gamgyfeirio, cytunir a gweithredir ar y trosglwyddo gan yr Ysgrifenyddion Cynulliad perthnasol, a bydd Ysgrifenyddiaeth y Cabinet yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Gyflwyno a'r Aelod Cynulliad.

5. Rhaid i gwestiwn a gyflwynir ymwneud â mater y mae'r Prif Ysgrifennydd neu'r Ysgrifennydd Cynulliad yn gyfrifol amdano fel *Ysgrifennydd.* Ni chaiff, er enghraifft, ymwneud ag unrhyw weithgareddau yn ei swydd fel arweinydd plaid neu Aelod Cynulliad. Dylid geirio cwestiynau llafar i Ysgrifenyddion y Cynulliad fel eu bod yn nodi mater sy'n ymwneud â phwnc penodol, a hynny o fewn terfynau gweddol eang. Mae canllawiau ynghylch y meysydd y gall Ysgrifenyddion unigol y Cynulliad gael eu holi amdanynt ar gael ar y Fewnrwyd (cyswllt â thudalen Canllaw y Cynulliad) a/neu o'r Swyddfa Gyflwyno.

**Cwestiynau Derbyniol**

6. *Cyfrifoldeb Cabinet y Cynulliad* - Rhaid i gwestiynau i Ysgrifenyddion Cynulliad ymwneud â materion y mae'r Ysgrifenyddion hynny yn gyfrifol amdanynt yn swyddogol. Gellir eu holi am ddatganiadau ar eu polisi neu eu bwriadau ar y cyfryw faterion, neu am weithredu gweinyddol neu ddeddfwriaethol.

7. *Datganiadau y tu allan i'r Cynulliad* - Caniateir cyflwyno cwestiynau am unrhyw ddatganiad cyhoeddus, ym mha ffurf bynnag, a wneir gan Brif Ysgrifennydd y Cynulliad neu gan un o'r Ysgrifenyddion Cynulliad y tu allan i'r Cynulliad yn rhinwedd eu swydd.

**Cwestiynau annerbyniol**

8. *Dadlau a dywediadau afreolus* - Cwestiynau allan o drefn yw'r rhai sy'n ceisio mynegi barn, yn cynnwys dadleuon, ensyniadau, difenwadau diangen neu ymadroddion rhethregol, sgwrsiol, eironig neu dramgwyddus.

9. *Sail ffeithiol* - Nid yw darnau allan o bapurau newyddion, llyfrau neu aralleiriad o ddyfyniadau o areithiau etc. yn dderbyniol ond gall y ffeithiau y seilir cwestiwn arnynt, o fewn fframwaith cwestiwn, gael eu cyflwyno'n gryno, ar yr amod bod yr Aelod sy'n gofyn y cwestiwn yn derbyn cyfrifoldeb am gywirdeb y cyfryw ffeithiau.

10. *Bwrw sen bersonol* - Ni ddylai cwestiynau fwrw sen ar gymeriad nac ymddygiad y bobl hynny na ellir herio'u hymddygiad ond drwy gynnig gwreiddiol yn y Cynulliad; ac ni chaniateir bwrw sen ar ymddygiad pobl eraill y tu allan i'w cymhwyster swyddogol neu gyhoeddus. Nid yw cwestiwn yn dderbyniol os yw'n crybwyll enwau gydag atgasedd neu er mwyn hysbysebu neu mewn unrhyw ffordd nad oes ei hangen i wneud y cwestiwn yn ddealladwy. Ni dderbynnir cwestiynau sy'n holi ynghylch barn bersonol, arferion neu ddiddordebau Ysgrifenyddion Cynulliad nad ydynt yn rhan o'u cyfrifoldebau fel Ysgrifenyddion Cynulliad. Gellir dyfarnu bod cyfeiriadau anghwrtais at wlad dramor, neu at Bennaeth Gwladwriaeth y wlad honno, yn annerbyniol a dylai'r Aelodau ystyried yn wastad urddas y trafodion.

*11. Y teulu brenhinol* - Ni cheir cyflwyno unrhyw gwestiwn sy'n dod ag enw'r Frenhines neu ddylanwad y Goron yn uniongyrchol gerbron y Cynulliad, neu sy'n bwrw sen ar y Frenhines neu'r teulu brenhinol.

12. *Cywirdeb y datganiadau* - cwestiynau'n gofyn a yw datganiadau yn y wasg, neu gan unigolion preifat, neu gan gyrff answyddogol yn gywir neu'n gofyn am sylwadau ar ddatganiadau a wnaed gan bobl mewn gwledydd eraill (oni bai fod y datganiad yn neges i'r Cynulliad oddi wrth lywodraeth arall).

13. *Materion yr awdurdod lleol/corff statudol* - cwestiynau yn gofyn i weithredu ar faterion gweithredol sydd o dan reolaeth yr awdurdodau lleol, yr awdurdodau iechyd ac awdurdodau statudol eraill neu gyrff neu bobl nad ydynt yn atebol i'r Cynulliad, megis y banciau, y

Gyfnewidfa Stoc, cwmnïau, mudiadau cyflogwyr a'r undebau llafur; neu'n gofyn i weithredu ar wybodaeth ynghylch gweithgareddau pobl neu gyrff nad oes gan Ysgrifenyddion y Cynulliad y grym i'w perfformio na'u cael. Er hynny, gellir gofyn cwestiynau ynghylch y wybodaeth y mae'r Cynulliad yn ei gasglu ar gyrff o'r fath.

14. *Diwydiannau Gwladoledig* - cyfyngir ar gwestiynau'n ymwneud â diwydiannau gwladoledig a chyrff cyhoeddus eraill sy'n debyg i rai gwladoledig, gan gynnwys rheolyddion y diwydiannau gwladoledig blaenorol, ar wahân i OFWAT. Cyfyngir y cwestiynau hyn i'r materion hynny y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad yn gyfrifol amdanynt drwy statud, neu ddeddfwriaeth arall a materion y mae'n hysbys bod Ysgrifennydd y Cynulliad yn ymwneud â hwy. Gellir derbyn cwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth ystadegol ar sail genedlaethol a'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu o ddydd i ddydd, cyhyd ag y bônt yn codi materion sydd o bwys cyhoeddus;

15. *Pwyllgorau'r Cynulliad* - gall cwestiynau sy'n cyfeirio at dystiolaeth neu faterion eraill gerbron Comisiwn Brenhinol, Ymchwiliad Cyhoeddus neu bwyllgor Seneddol neu bwyllgor Cynulliad gan dystion, neu sy'n ymdrin â materion o fewn awdurdodaeth cadeirydd pwyllgor pwnc neu unrhyw bwyllgor neu unrhyw awdurdod arall gan y Cynulliad, fod yn annerbyniol. Ni ellir gofyn cwestiwn am drafodion mewn pwyllgor nad ydynt wedi'u gosod gerbron y Cynulliad mewn adroddiad gan y pwyllgor.

16. Ni dderbynnir cwestiynau sy'n ceisio cael mynegiant o farn ar gwestiwn cyfreithiol, megis dehongli statud, neu ddogfen ryngwladol, pwerau Ysgrifennydd Cynulliad etc. Er hynny, gellir gofyn i Ysgrifenyddion Cynulliad o dan ba awdurdod statudol y maent wedi gweithredu mewn achos arbennig, a gellir gofyn i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad ddiffinio cyfrifoldebau Ysgrifennydd Cynulliad;

17. Yn ogystal, nid yw cwestiynau sy'n gofyn am wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yn dderbyniol, pan all yr Aelod Cynulliad ddod o hyd i'r wybodaeth drosto'i hun neu o ffynhonnell arall.

18. *Cwestiynau sy'n ceisio dylanwadu ar neu sy'n annog Ysgrifenyddion Cynulliad i gyflwyno sylwadau i Ysgrifenyddion Cynulliad eraill neu i'r Ysgrifennydd Gwladol* - Ni chaiff Aelodau Cynulliad ofyn i un Ysgrifennydd Cynulliad ddylanwadu ar un arall ac ni all ofyn i Ysgrifennydd Cynulliad gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol. Er hynny, gall cwestiynau sy'n gofyn faint o ddylanwad sydd gan Ysgrifennydd y Cynulliad fod yn dderbyniol.

19. Mae cwestiynau sy'n ceisio deddfwriaeth i ymdrin ag amgylchiadau sydd y tu hwnt i bwerau'r Cynulliad yn osgoi'r rheol bod rhaid i gwestiynau fod yn gysylltiedig â materion y mae'r Ysgrifenyddion Cynulliad yn swyddogol yn gyfrifol amdanynt a gallant fod yn annerbyniol, yn yr un modd â'r rheiny sy'n enwi digwyddiadau unigol nad oes gan Ysgrifennydd Cynulliad unrhyw bwer gweinyddol neu gyfrifoldebau yn eu cylch wrth ofyn am ddeddfwriaeth gyffredinol;

20. Mae cwestiynau sy’n awgrymu gwelliannau manwl i ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad neu gerbron pwyllgor yn annerbyniol. Er hynny, gellir gofyn cwestiynau yn ceisio gwybodaeth ar effaith y ddeddfwriaeth arfaethedig;

21. *Polisïau’r pleidiau gwleidyddol* - mae cwestiynau sy’n ymwneud â pholisïau’r wrthblaid yn hytrach nag â chyfrifoldebau Ysgrifenyddion y Cynulliad yn annerbyniol.

22. *Busnes y Cynulliad a Gwaith y Cynulliad* - Materion i’r Llywydd yw cwestiynau ynghylch trefn busnes cyhoeddus y Cynulliad a gwaith y Cynulliad megis Papur y Drefn, Cofnod y Trafodion neu’r fewnrwyd, adnoddau a chyfleusterau ac ati. Er hynny, am nad yw’r Rheolau Sefydlog yn caniatáu cyflwyno cwestiynau i’r Llywydd, caniateir i’r cwestiynau ar y materion hyn gael eu cyflwyno i’r Trefnydd a fydd yn eu hateb ar ran y Llywydd. Mae Rheol Sefydlog 6.26 yn gwahardd cyflwyno cwestiynau llafar i’r Trefnydd, felly rhaid i’r cwestiynau hyn fod yn ysgrifenedig.

23. *Cwestiynau a atebwyd eisoes, neu y gwrthodwyd rhoi ateb iddynt* - Mae cwestiynau sy’n ailadrodd neu sy’n adnewyddu sylwedd cwestiynau a atebwyd eisoes neu y gwrthodwyd rhoi ateb iddynt, yn y sesiwn hwnnw o’r Cynulliad, yn annerbyniol. Er hynny, pan fydd Ysgrifennydd Cynulliad wedi gwrthod gweithredu neu roi’r wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn cwestiwn penodol, gellir gofyn yr un cwestiwn iddo ef neu iddi hi ar ôl ysbaid o dri mis.

24. *Ni ellir cyfeirio cwestiwn y mae un Ysgrifennydd Cynulliad wedi gwrthod ei ateb* at Ysgrifennydd Cynulliad arall ac ni ellir gofyn cwestiwn sydd eisoes wedi’i ateb gan un Ysgrifennydd Cynulliad i Ysgrifennydd Cynulliad arall. Ni ellir mynnu cael ateb i gwestiwn, os yw Ysgrifennydd Cynulliad wedi gwrthod ateb, a gall y Llywydd wrthod cwestiynau atodol yn yr amgylchiadau hyn.

25*. Penderfyniadau’r Cynulliad* - Mae cwestiynau sy’n beirniadu penderfyniadau’r Cynulliad yn annerbyniol; ac ni all cwestiynau gyfeirio at ddadleuon na chwestiynau ac atebion sesiwn cyfredol y Cynulliad, heblaw am geisio eglurhad pellach i gwestiwn blaenorol. Ni ellir gofyn cwestiynau ar faint o amser y mae areithiau unigol yn para a materion i’r Llywydd yw’r rhain yn yr un modd a materion trefniadol yn gyffredinol. Bydd y Llywydd yn gwneud dyfarniadau o bryd i’w gilydd a chânt eu rhoi ar y fewnrwyd.

26*. Materion sub judice* - Ni ellir cyfeirio at unrhyw faterion sy’n disgwyl dyfarniad, neu o dan ddyfarniad, mewn llys troseddol, llys crwner lle bo rheithgor yn bresennol, neu lys milwrol neu faterion a osodwyd ar gyfer treial neu fel arall wedi’u dwyn gerbron llys sifil mewn unrhyw drafodaeth neu gwestiwn (Rheol Sefydlog 7.13). Os canfyddir bod mater pwnc cwestiwn yn un sub judice ar y pryd, neu’n datblygu i fod yn un ar ôl i’r cwestiwn gael ei gyflwyno, gofynnir i’r Aelod Cynulliad ei dynnu’n ôl, neu fe all y Llywydd gyfarwyddo’r Swyddfa Gyflwyno i’w symud oddi ar yr agenda am y diwrnod neu wrthod caniatáu iddo gael ei ofyn.

27. Nid yw cwestiynau sy’n adlewyrchu ar benderfyniad mewn llys barn yn dderbyniol. Mae cwestiynau sy’n ymwneud â dedfryd a ddyfarnwyd gan farnwr yn annerbyniol (Rheol Sefydlog 7.14).

28. *Etholiadau’r Cynulliad* - Mater i’r Llywydd yw cwestiynau ynghylch etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol fel arfer. Gall cwestiynau ynghylch ymddygiad neu ymgyrch y cyfryngau mewn etholiadau lleol fod yn dderbyniol.

29. Mae cwestiynau sy’n lleisio barn neu’n cynnig eu hatebion eu hunain yn annerbyniol.

*30. Amrywiol* - Mae cwestiynau sy’n ceisio datrys cynigiad damcaniaethol yn annerbyniol fel y mae’r rheiny sy’n codi cwestiynau polisi rhy fawr i ymdrin â hwy mewn ateb i gwestiwn. Nid yw cwestiynau sy’n ceisio gwybodaeth ar faterion yn y gorffennol i ddibenion dadl, neu’r rhai a luosir gyda mân amrywiadau ar yr un pwynt, yn dderbyniol, nac ychwaith gwestiynau sydd ym marn y Llywydd yn bitw, niwlog neu ddiystyr.

**Sylwer: mae cyfeiriadau at Ysgrifenyddion Cynulliad hefyd yn cynnwys y Prif Ysgrifennydd heblaw paragraff 6.1.**